# Cenn@d

TACHWEDD 16 2022 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 90


## Ceisio Cyfiawnder yn Qatar

Yn ystod y dyddiau nesaf fe fydd llygaid y byd yn troi i gyfeiriad Qatar, wrth i gystadleuaeth bêl-droed Cwpan y Byd FIFA gychwyn ddydd Sul, 20 Tachwedd, ac am y tro cyntaf ers 1958 mae Cymru, wrth gwrs, yn rhan o'r cystadlu. Yn yr erthygl hon mae Aled Davies yn edrych ymlaen at y gystadleuaeth ond yn codi sawl cwestiwn ynghylch addasrwydd Qatar i gynnal y gystadleuaeth yn wyneb eu hanes trychinebus ym maes hawliau dynol a goddefgarwch crefyddol.

Erbyn hyn mae'r cynnwrf yn cynyddu yng Nghymru, wrth i furluniau, baneri a cherfluniau ymddangos ar hyd a lled y wlad. Yn y llun gwelir yr het fwced a osodwyd yn Aberystwyth yn ddiweddar. Dymunwn yn dda i Rob Page a'i garfan o 26 chwaraewr, a braf bod yr enwau profiadol fel Bale, Allen a Ramsey yn iach i chwarae. Diolch i blant y Rhondda am gyhoeddi'r enwau i ni rai dyddiau yn ôl, a gobeithiwn y bydd y garfan gyfan yn profi llwyddiant ar y daith hon. Bydd llawer o aelodau'r Wal Goch hefyd yn teithio allan i'r wlad, er bod nifer wedi dewis peidio â gwneud y daith oherwydd agwedd Qatar at hawliau dynol a chamdriniaeth y wlad o ferched a'r gymuned LGBTQI+ yn arbennig. Mae'r elusen Christians in Sport wedi paratoi erthygl yn dwyn y teitl, 'A ddylai chwaraewyr Cristnogol foicotio digwyddiadau mewn mannau dadleuol fel Qatar?' Cliciwch yma i fynd i'w gwefan: [https://christiansinsport.org.uk/resources/askcis/should-christian-sportspeople-boycott-events-in-controversial-places/](https://christiansinsport.org.uk/resources/askcis/should-christian-sportspeople-boycott-events-in-controversial-places/)

Bydd Cymru yn chwarae eu gêm gyntaf ddydd Llun, 21 Tachwedd, am 7 o'r gloch y nos, a hynny yn erbyn Unol Daleithiau America. Yna, byddant yn herio Iran ddydd Gwener, 25 Tachwedd, am 10 o'r gloch y bore, cyn y gêm fawr yn erbyn Lloegr ddydd Mawrth, 29 Tachwedd, am 7 o'r gloch yr hwyr. Bydd y gystadleuaeth gyfan yn cael ei chwarae dros bedair wythnos, gyda'r gêm derfynol brynhawn Sul, 18 Rhagfyr, am 3 o'r gloch.

Efallai y bydd eglwysi am ystyried yn ofalus amseriad oedfaon drama'r geni a phartïon Nadolig y plant ar y Sul hwnnw rhag torri ar draws mwynhad y gêm derfynol i lawer o deuluoedd. Bydd rhai eglwysi yn darlledu'r



Huw o flaen yr het yn Aberystwyth

gemau yn eu heglwysi, gan greu gofod diogel a chartrefol i deuluoedd ddod at ei gilydd, ac yn ei weld fel cyfle cenhadol i bontio â'r gymuned. Byddai *Cenn@d* yn falch o gael gwybodaeth am unrhyw gynlluniau sydd gan eglwysi Cymraeg i nodi'r achlysur. Bu llawer o blant yn casglu sticeri'r timau ers amser, a braf eleni oedd gweld sawl llyfr Cymraeg i blant yn rhoi sylw i ymgais Cymru. Yn yr un modd difyr oedd gweld cân eiconig Dafydd Iwan, 'Yma o Hyd', yn cael ei mabwysiadu fel y gân swyddogol ar gyfer yr ymgyrch, a chynulleidfa ehangach eto fyth yn cael clywed geiriau'r gân arbennig hon. Dymuniadau gorau i dîm Cymru felly dros yr wythnosau nesaf.

Ers y cyhoeddiad y byddai'r gystadleuaeth yn cael ei chynnal eleni yn Qatar bu llawer o densiynau a phroblemau gyda'r dewis i fynd i wlad Arabaidd gaeth, a chyhuddiadau o lwgrwobrwyo swyddogion er mwyn denu'r gystadleuaeth i'r wlad. Gwladwriaeth Arabaidd sofran yn y Dwyrain Canol yw Qatar. Fe'i lleolir ar orynys ar arfordir gogledd-ddwyreiniol Arabia ar lannau'r Gwlff yng ngorllewin Asia. Mae'n ffinio â Saudi Arabia i'r de ac mae ynys Bahrain yn gorwedd i'r gorllewin. Ei ffiniau eraill yw Gwlff Persia. Yn 2021 roedd poblogaeth Qatar yn 2.2 miliwn, gyda dim ond 218,000 o frodorion Qatar ac 1.9 miliwn o alltudion. Fe'i rheolwyd gan Brydain nes iddi ddod yn annibynnol yn 1971. Mae teulu Al Thani wedi chwarae rhan flaenllaw yn ei rheolaeth ers canol y 19g, ac mae Qatar heddiw dan reolaeth unbenaethol Emir Tamim bin Hamad Al Thani.

Qatar yw gwlad gyfoethoga'r byd, yn ôl y pen, gyda thwf uwch nag unrhyw wlad Arabaidd arall. Mae ganddi fwy o nwy wrth gefn nag unrhyw wlad arall ar y ddaear; mae ei chronfa wrth gefn dros 25 biliwn casgen. Mae'r rhan fwyaf o bobl frodorol Qatar yn cadw'n agos iawn at grefydd Islam, a chyfraith Sharia yw prif sail cyfreithiau'r wlad. Islam yw crefydd swyddogol y wlad, ac mae 66% o'r boblogaeth yn dilyn y grefydd honno; mae 15% yn Hindŵiaid, a Christnogion yn cynrychioli 14% o'r boblogaeth. Mae'r gymuned Gristnogol yn Qatar yn gymysgedd amrywiol o alltudion o Ewrop, o ogledd a de America, y Dwyrain Canol ac Affrica. Nid oes unrhyw grwpiau cenhadol tramor yn cael gweithredu'n agored yn y wlad. Ym mis Mai 2005 cyflwynodd Llywodraeth Qatar ddarn o eiddo ar gyrion Doha i arweinwyr yr eglwysi Cristnogol yn y wlad ar gyfer adeiladu eglwys.

Wedi dewis Qatar fel lleoliad Cwpan y Byd yn 2022 bu'n rhaid recriwtio tua hanner miliwn o weithwyr i adeiladu'r stadiwm. Bu cryn feirniadu ar yr amodau gwaith, gyda chyhuddiadau o gaethwasiaeth ac atal cyflogau. Roedd y gweithwyr yn aml yn byw dan amodau budr gyda 12 i un ystafell ac yn aml yn cael eu gadael heb unrhyw fwyd. Roedd diwrnod gwaith yn ymestyn dros 15 awr i lawer, a hynny mewn gwres llethol. Bu'n rhaid i'r wlad addo adeiladu 12 stadiwm newydd mewn pryd ar gyfer y twrnamaint, ac er mwyn cyflawni hyn bu'r gost ddynol yn uchel. Mae Cydffederasiwn yr Undebau Llafur Rhyngwladol yn amcangyfrif bod cynifer â 4,000 o adeiladwyr alltud wedi marw wrth gyflawni'r gwaith.

Her arall yn Qatar yw'r agweddau at hawliau dynol a goddefgarwch, gyda merched a grwpiau'r gymuned LGBTQI+

*(parhad ar y dudalen nesaf)*


'Pa sawl torth sydd gennych?'
**Tudalen 3**

Cyflwyno Medal Gee yng Nghwmllynfell
**Tudalen 5**

Ffrwyth gweddi yn amlwg yn Noc Penfro
**Tudalen 7**

## *Ceisio Cyfiawnder yn Qatar*

*(parhad o dudalen 1)*

yn dioddef erledigaeth enbyd. Mae gweithgaredd rhywiol o'r un rhyw wedi'i wahardd yn llwyr yn Qatar, gyda chosb o hyd at saith mlynedd yn y carchar, neu hyd yn oed farwolaeth i Fwslimiaid. Mae lefel yr erledigaeth sy'n wynebu'r Cristion yn Qatar yn dibynnu i raddau helaeth p'un a yw'n frodor o Qatar ai peidio. Gweithwyr sydd wedi symud yno o wledydd eraill yw'r rhan fwyaf o Gristnogion Qatar; mae'r credinwyr hyn yn wynebu pwysau a gwahaniaethu ac mae eu heglwysi yn aml yn cael eu monitro'n fanwl gan y llywodraeth, ond maen nhw'n fwy rhydd i addoli.

Fodd bynnag mae'n stori wahanol i gredinwyr brodorol. Mae bywyd yn llawer anoddach iddyn nhw. Mae credinwyr newydd yn debygol o wynebu pwysau eithafol gan eu teulu a'u cymuned Fwslimaidd, os bydd eu ffydd Gristnogol yn cael ei darganfod. Mae merched a merched Cristnogol yn arbennig o agored i gael eu rhyddid wedi'i gwtogi'n ddifrifol gan y teuluoedd Mwslimaidd – gan gynnwys cael eu caethiwo yn y tŷ heb fynediad at gyfathrebu allanol. Nid yw Qatar yn cydnabod yr hawl i droi oddi wrth Islam tuag at grefydd arall yn swyddogol. Yn yr un modd, ni chaniateir i Gristion o gefndir Mwslimaidd briodi rhywun nad yw'n Fwslim.

Un mudiad sy'n gweithio'n ddyfal dros hawliau dynol yn y wlad yw Amnest




Rhyngwladol, ac mae ganddynt adnoddau ar eu gwefan yn sôn am eu hymgyrchoedd gwahanol. Mae adroddiad Amnest ar baratoadau Qatar ar gyfer cynnal Cwpan y Byd – 'Pam ydych chi eisiau gorffwys?': camdriniaeth barhaus o weithwyr domestig yn Qatar – yn amlygu sut mae awdurdodau Qatar yn methu cynnal arolygiadau o weithleoedd, a sut mae'r diwygiadau diweddar yn methu mynd i'r afael â cham-drin systemig dros y wlad. Gallwch ddarllen mwy ar eu gwefan: https://www.amnesty.org.uk/issues/qatar-football-world-cup-2022

Elusen arall sy'n weithgar o ran hawliau dynol yw Open Doors, ac ar gyfer Cwpan y Byd mae ganddynt gyfres o adnoddau i eglwysi a theuluoedd, gan gynnwys llyfr sticeri ar gyfer plant. Meddai Open Doors, 'Oeddech chi'n gwybod bod saith o'r gwledydd sy'n chwarae yng Nghwpan y Byd eleni ar Restr Gwylio'r Byd Drysau Agored? Er ein bod yn cydnabod y bydd llawer o bobl yn dewis peidio â gwylio'r twrnamaint, am wahanol resymau, credwn fod y twrnamaint yn cynnig cyfle gwerthfawr i godi cefnogaeth i Gristnogion sy'n cael eu herlid sy'n byw yn Iran, Saudi Arabia, Moroco, Tunisia, Mecsico, Camerŵn a'r genedl sy'n cynnal y gystadleuaeth, sef Qatar.' Am fwy o fanylion, ewch i'r wefan: https://www.opendoorsuk.org/resources/world-cup/

Dyma weddi gan Open Doors:

Hollalluog Dduw, diolchwn i Ti am Dy bresenoldeb gyda'th bobl yn Qatar. Gofynnwn i ti eu bendithio, eu cryfhau a'u cysuro ar adegau o dreialon, a phryd bynnag y mae'n ymddangos nad oes gobaith na ffordd allan. Gweddïwn ar i ti amddiffyn ein brodyr a chwiorydd, gan dyfu dy eglwys yn Qatar. Defnyddia Gwpan y Byd FIFA 2022 i dynnu sylw at yr heriau sy'n wynebu Cristnogion Qatar, er mwyn sicrhau mwy o ryddid crefyddol iddynt. Amen.

Wrth i dîm pêl-droed Cymru gychwyn ar eu taith, dymunwn bob rhwyddineb a diogelwch iddynt. Yn yr un modd hyderwn y bydd y cefnogwyr yn cadw'n ddiogel gan ddilyn deddfau a chyfraith y wlad. Gobeithio hefyd y bydd cyfle iddynt dystio drwy esiampl a gweithred i'r ffordd gariadus a goddefgar o fyw rydym yn ei harddel yng Nghymru, ac y bydd modd herio pob anghyfiawnder a welir yn y wlad.




